Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? Edrychwch arno yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




Rhifyn 270 (Cymru) – 21 Ebrill 2020

## Adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar etholiad cyffredinol Senedd y DU 2019

Heddiw (dydd Mawrth 21 Ebrill) mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cyhoeddi adroddiad ar etholiad cyffredinol Seneddol y DU a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2019.

Mae gennyml gyfrifoldeb statudol i adrodd ar etholiadau cyffredinol y DU ac rydym wedi ymrwymo i dryloywder. Rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad ar ôl yr etholiad ar yr adeg hon i roi mynediad i'r ymchwil a rhannu ein dadansoddiad o'r gwersi o etholiad cyffredinol 2019.

Rydym wedi edrych ar sut y cafodd yr etholiad ei redeg, sut y canfu pleidleiswyr tra'n cymryd rhan yn yr etholiad, a sut y gwnaeth ymgyrchwyr drosglwyddo eu negeseuon i bleidleiswyr. Mae ein hadroddiad yn nodi'r hyn a ganfuom a'r hyn y dylem ei newid ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

Mae ein hymchwil gyda'r cyhoedd yn dangos bod yno lefelau uchel o foddhad ar y broses o gofrestru i bleidleisio a pleidleisio ei hun. Roedd y rhain yn debyg i etholiadau diweddar eraill yn y DU.

O dan y darlun cadarnhaol hwn, fodd bynnag, rydym hefyd wedi gweld tystiolaeth am bryderon a phroblemau yn yr etholiad.

Er bod mwy na dwy ran o dair o bobl wedi dweud eu bod yn hyderus bod yr etholiad yn cael ei redeg yn dda, dywedodd lleiafrif sylweddol o bron i un o bob pump o bobl wrthym nad oeddent yn hyderus. Dewisodd llawer o'r bobl hyn resymau yn ymwneud â phryderon am ymgyrchu neu'r cyfryngau i egluro pam nad oeddent yn hyderus. Dewisodd rhai pobl bryderon hefyd a oedd yn ymwneud â'r ffordd yr oedd y prosesau cofrestru neu bleidleisio yn gweithio.

Mae ein hadroddiad yn nodi tair her allweddol sy'n ymwneud â chyflawni'r etholiad:

- Roedd Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs) dan bwysau gan nifer fawr o geisiadau i gofrestru i bleidleisio a

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar etholiad cyffredinol Senedd y DU 2019**

Gwybodaeth a dolen i adroddiad y Comisiwn a gyhoeddwyd ar ddydd Mawrth 21 Ebrill.

**Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r *Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol.***

**Cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.**

**Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data y DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommissio**

wnaed yn agos at y dyddiad cau, a bu’n rhaid iddynt dreulio amser ac ymdrech ar bwynt tyngedfennol yn delio â llawer o geisiadau dyblyg
- Unwaith eto, nid oedd gan rai etholwyr tramor ddigon o amser i dderbyn a dychwelyd pleidleisiau post, a olygai na ellid cyfrif eu pleidleisiau
- Daeth amseriad yr etholiad cyffredinol ym mis Rhagfyr â heriau penodol i Swyddogion Canlyniadau (ROs), a oedd yn ei chael yn anoddach recriwtio staff a sicrhau gorsafoedd pleidleisio a lleoliadau cyfrif

Rydym wedi gwneud yr argymhellion canlynol i gefnogi EROs a ROs fel y gallant fodloni disgwyliadau pleidleiswyr mewn etholiadau yn y dyfodol:

- Mae angen i Lywodraeth y DU nodi gwelliannau i'r gwasanaeth cofrestr ar-lein, systemau meddalwedd rheoli etholiadol a'r model cyllido ar gyfer etholiadau, i helpu EROs i reoli nifer fawr o geisiadau cofrestru (gan gynnwys ceisiadau dyblyg) yn effeithiol cyn digwyddiadau etholiadol mawr.
- Dylai Llywodraeth y DU hefyd archwilio diwygiadau a fyddai'n ei gwneud hi'n haws i bobl gofrestru neu ddiweddaru eu manylion trwy gydol y flwyddyn, megis trwy integreiddio ceisiadau cofrestru â chysylltiadau gwasanaeth cyhoeddus eraill.
- Mae angen i Lywodraeth y DU ystyried dulliau newydd arloesol i wella pleidleisio i etholwyr tramor, gan ddefnyddio tystiolaeth o wledydd eraill, yn enwedig o ystyried ei chynlluniau i gynyddu nifer y dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor sy'n gymwys i bleidleisio.
- Mae angen i dair llywodraeth y DU nodi sut y byddant yn symleiddio ac yn moderneiddio cyfraith etholiadol, gan adeiladu ar yr argymhellion cynhwysfawr a gefnogir gan Gomisiynau'r Gyfraith

**n.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg.**

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**

© Y Comisiwn Etholiadol 2020